FFORWM SIROL
NODIADAU'R CYFARFOD

DYDDIAD: Dydd Iau, 14 Chwefror 2019
AMSER: 6.30 pm – 8.30 pm
YN GWAHODD: Cyngor Tref Cei Connah
LLEOLIAD: Swyddfeydd Cyngor y Dref, Adeilad y Cei, Ffordd Fron, Cei Connah, Sir y Fflint, CH5 4PJ

PRESENOLDEB

1. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

1.1. Yn bresennol

Cyngor Sir y Fflint:

- Y Prif Weithredwr
- Arweinydd Cyngor Sir y Fflint
- Prif Swyddog – Gwasanaethau Cymdeithasol
- Rheolwr Cyflawni Rhaglenni – Digidol, Cwsmeriaid a Gwytnwch Cymunedol
- Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd
- Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu
- Swyddog Cefnogi Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol

Colin Everett
Aaron Shotton
Neil Ayling
Cher Lewney

Barry Wilkinson
Karen Armstrong
Sam Perry - **Cofnodion**

Cynghorau Tref a Chymuned:

- Cyngor Cymuned Brynffordd
- Cyngor Tref Cei Connah
- Cyngor Cymuned Helygain
- Cyngor Cymuned Higher Kinnerton
- Cyngor Tref Yr Wyddgrug
- Cyngor Cymuned Mostyn
- Cyngor Cymuned Nannerch
- Cyngor Cymuned Queensferry
- Cyngor Tref Saltney
- Cyngor Cymuned Sealand
- Cyngor Cymuned Ysceifiog

Cynrychiolwyr Eraill:

- Ann Woods, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint **(Eitem 1F)**

1.2. Ymddiheuriadau

Cyngor Sir y Fflint:

FFORWM SIROL
NODIADAU'R CYFARFOD

- Aelod Cabinet
- Prif Swyddog - Strydwedd a Chludiant
- Cydlynydd SPOA
- Prif Swyddog - Tai ac Asedau
- Prif Swyddog - Llywodraethu
- Prif Swyddog - Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi
- Prif Swyddog - Addysg ac Ieuenctid
- Swyddog Gweithredol

Y Cyng. Billy Mullin
Stephen O Jones **(Eitem 1E)**
Kate Howard **(Eitem 1F)**
Neal Cockerton
Gareth Owens
Andrew Farrow
Claire Homard
Joanne Pierce

Cynghorau Tref a Chymuned:

- Cyngor Tref Bwcle - Nid yw'n mynychu cyfarfodydd y Fforwm Sirol mwyach
- Cyngor Tref Caerwys
- Cyngor Tref Treffynnon
- Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor

Diolchodd Colin Everett i Gyngor Tref Cei Connah am gadeirio'r cyfarfod a darparu'r lleoliad.

Agorodd y Cyng. Pam Attridge, Cadeirydd Cyngor Tref Cei Connah, y cyfarfod a diolchodd i bawb am fod yno, soniodd am gymhennu cyffredinol a gweithdrefnau gwacáu mewn achos o dân ac fe gyflwynodd bob eitem ar y rhaglen.

Cytunwyd bod y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2018 yn gofnod cywir o'r digwyddiadau. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

RHAN UN

MATERION Y CYNGOR

1A. Adolygiad Ffiniau Lleol

Darparwyd diweddariad ar lafar ar yr Adolygiad Ffiniau Lleol gan Colin Everett. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae cam un bellach wedi'i gwblhau. Daeth y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos ar gyfer yr Adolygiad i ben ar 30 Ionawr 2019.
- Cynhaliwyd gweithdy i aelodau mewnol ar ddechrau mis Rhagfyr i drafod cynigion yr adolygiad a darparwyd cyfleuster 'galw heibio' yn ystod mis Rhagfyr er mwyn i aelodau allu paratoi eu cynigion yn fanwl gyda Swyddogion. Cynhaliwyd ail weithdy ar ddechrau mis Ionawr 2019.
- Fe aeth y Cyngor ag adroddiad i'r Cyngor Sir ar 29 Ionawr 2019 ac mae ei ymateb wedi'i gyflwyno. Mae copi ar gael ar wefan y Cyngor.
- Fel rhan o ymateb y Cyngor, rhoddwyd statws COG i bob ward etholiadol.

  - **Gwyrdd –** Cynigion lle mae cytundeb ac mae hefyd o fewn amrywiad o 25% o gyfartaledd arfaethedig y Sir.
  - **Oren –** Cynigion lle mae peth anghytuno ond hwn yw'r dewis 'a ffefrir' ac mae hefyd o fewn amrywiad o 25% o gyfartaledd arfaethedig y Sir.
  - **Coch –** Cynigion lle nad oes cytundeb neu nid yw'r cynnig yn cydymffurfio gan nad yw o fewn amrywiad o 25% o gyfartaledd y Sir.
- Mae Sir y Fflint yn sir 'werdd' yn bennaf. Nid oes angen pryderu'n ormodol ar hyn o bryd.
- Yn gyffredinol, mae'r cynigion wedi'u cefnogi'n dda.
- Bydd cynigion drafft ar gyfer y trefniadau etholiadol yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref 2019 a bydd cyfnod ymgynghori pellach o 12 wythnos – cam dau.
- Bydd adroddiad 'Cynigion Terfynol' yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn 2020 er mwyn i'r Llywodraeth ystyried y cynigion a gyflwynwyd.
- Bydd y trefniadau etholiadol newydd yn dod i rym erbyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022.

Cwestiynau ac Atebion:

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar y Rhaglen.

Camau Gweithredu:

Dosbarthu copi o Adroddiad y Cyngor ar yr Adolygiad Ffiniau a chyflwyniad y Cyngor os ceisir hynny gan Gynghorau Tref a Chymuned.

[Sam Perry i weithredu]

1B. Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2019/20

Cafwyd cyflwyniad ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer Cynllun y Cyngor 2019/20 gan Karen Armstrong. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae Cynllun y Cyngor yn gynllun statudol a gyhoeddir yn flynyddol.
- Mae Sir y Fflint yn ail-fabwysiadu ei Gynllun ar ddechrau'r haf bob blwyddyn.
- Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar hyn o bryd.
- Mae'r Cynllun yn un o gyfres o gynlluniau corfforaethol ac mae'n alinio'n dda â'r Cynllun Lles ar gyfer Sir y Fflint.
- Yn y gorffennol, mae Cynllun y Cyngor wedi canolbwyntio ar 6 thema gyda nifer o flaenoriaethau 'yn ystod y flwyddyn' yn cael eu halinio â phob thema. Sef:
  - Cyngor Cefnogol
  - Cyngor Uchelgeisiol
  - Cyngor sy'n Dysgu
  - Cyngor Gwyrdd
  - Cyngor sy'n Cysylltu
  - Cyngor sy'n Gwasanaethu

FFORWM SIROL
NODIADAU'R CYFARFOD

- Bydd y Cynllun ar gyfer 2019/20 hefyd yn cynnwys thema ychwanegol – Cymunedau Glân a Diogel. Bydd y thema newydd hon yn cynnwys gwasanaethau sydd yn weladwy iawn e.e. Strydwedd a gwasanaethau rheoleiddio, gwasanaethau nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor yn flaenorol.
- Cyflwynwyd y cwestiynau canlynol i'r Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn iddynt eu hystyried a rhoi adborth.
    - A yw'r themâu a'r blaenoriaethau yn cyd-fynd ag anghenion a dyheadau eich cymunedau?
    - A oes unrhyw flaenoriaeth heb ei chynnwys, sydd yn hanfodol yn eich barn chi?

Cwestiynau ac Atebion:

C. Erbyn pryd fyddwch chi angen adborth gan Gynghorau Tref a Chymuned?
Gofynnir i Gynghorau Tref a Chymuned gyflwyno unrhyw adborth erbyn diwedd mis Mawrth 2019.

C. Beth yw'r amserlen ar gyfer cyhoeddi Cynllun y Cyngor?
Bydd rhaid cyflwyno'r Cynllun ei hun erbyn mis Mai 2019 a'r ddogfen mesurau cefnogi i ddilyn ym mis Mehefin 2019.

C. A fydd caethwasiaeth modern yn cael ei gynnwys yn y Cynllun?
Mae diogelwch cymunedol yn ymrwymiad mawr ar gyfer y Cyngor. Mae hyn wedi'i gynnwys o fewn y 'Cynllun Diogelwch Cymunedol' lleol a blaenoriaeth Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ar Ddiogelwch Cymunedol gyda llawer o weithrediadau ar y cyd yn cael eu cynnal mewn perthynas â hyn. Mae'r mater hefyd wedi'i gynnwys o fewn Cynllun Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

C. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw beth am yr laith Gymraeg wedi'i gynnwys yn y Cynllun. Oni ddylid cynnwys a hyrwyddo hyn?
Bydd y mater yn cael ei ystyried a'i gynnwys os yn briodol.

C. A fydd priffyrdd yn cael eu cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor ar gyfer 2019/20?
Byddant. Bydd priffyrdd yn cael eu cynnwys o fewn y thema newydd, mae cam gweithredu penodol mewn perthynas â hyn o fewn Cynllun 2019/20.

Camau Gweithredu:

Dosbarthu copi o sleidiau'r cyflwyniad i Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn y cyfarfod.

[Sam Perry i weithredu]

Cyflwyno unrhyw adborth ar y drafft o Gynllun y Cyngor 2019/20 i Sam Perry / Karen Armstrong erbyn diwedd mis Mawrth 2019.

[Yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i weithredu]

FFORWM SIROL
NODIADAU'R CYFARFOD

Cyngor Sir y Fflint i ystyried a ddylid cynnwys yr Iaith Gymraeg o fewn Cynllun y Cyngor neu os mae Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg (Cabinet 19 Mawrth) fydd y sail a ddefnyddir i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg.

[Karen Armstrong i weithredu]

1C. Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Wytnwch Cymunedol

Dosbarthwyd copi o'r 'Papur Briffio Gwytnwch Cymunedol' i Gynghorau Tref a Chymuned ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Darparwyd cyflwyniad byr a throsolwg o'r gwaith a'r 'Amcanion Gwytnwch Cymunedol' allweddol gan Neil Ayling a Cher Lewney. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae Cymunedau Gwydn yn un o bum blaenoriaeth Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint/ Cynllun Lles Sir y Fflint 2017-23.
- Caiff y flaenoriaeth ei diffinio fel mesur o allu parhaus cymuned i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ymateb, gwrthsefyll a gwella wedi sefyllfaoedd andwyol.
- Mae ystod o amcanion wedi'u gosod, yn cynnwys:
    - Tlodi Bwyd,
    - Beth am Symud,
    - Menter Gymdeithasol,
    - Presgripsiynu Cymdeithasol
    - Gwerth Cymdeithasol
    - Datblygu Arweinyddiaeth, a
    - Phrosiectau wedi'u lleoli yn yr Ardal (Holway, Lle i chi ac Y Fflint)
- Mae cynnydd mawr wedi'i wneud ar draws yr ardaloedd hyn fel yr amlinellwyd o fewn y papur briffio.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu fframwaith gwerthuso a fydd o gymorth i fesur, yn y tymor hir, pa mor effeithiol yr ydym wrth gefnogi cymunedau i fod yn wydn.

Tynnodd Y Cyng. Aaron Shotton sylw at y synergedd rhwng Cynllun y Cyngor a gwaith Gwytnwch Cymunedol Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.

<u>Cwestiynau ac Atebion:</u>

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar y Rhaglen.

<u>Camau Gweithredu:</u>

Dosbarthu copi o sleidiau'r cyflwyniad i Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn y cyfarfod.

[Sam Perry i weithredu]

1D. Strategaeth y Gyllideb

FFORWM SIROL
NODIADAU'R CYFARFOD

Rhoddodd Colin Everett ddiweddariad bras ar sefyllfa'r gyllideb genedlaethol a lleol.

Cwestiynau ac Atebion:

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar y Rhaglen.

Camau Gweithredu:

Dosbarthu copi o sleidiau'r cyflwyniad i Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn y cyfarfod.

[Sam Perry i weithredu]

Dosbarthu dolen gyswllt at y 'Cwestiynau Cyffredin' ar y wefan i Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn y cyfarfod.

[Sam Perry i weithredu]

Rhoi gwybod i Sam Perry os ydych chi o'r farn bod rhai Cwestiynau Cyffredin heb eu cynnwys, ac fe allwn eu hychwanegu at y rhestr sydd ar gael.

[Yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i weithredu]

1E. Ceisiadau Gwasanaeth Strydwedd: Rôl Cydlynwyr Ardal

Dosbarthwyd tudalennau gwybodaeth, yn cynnwys manylion cyswllt y Cydlynwyr Ardal a rhestr o'r gwasanaethau Strydwedd sydd ar gael drwy ffonio '01352 701234', ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Yn absenoldeb Stephen O Jones, esboniodd Barry Wilkinson y broses ar gyfer gwneud ceisiadau gwasanaeth, rôl y Cydlynwyr Ardal a'r broses ar gyfer uwch- gyfeirio materion heb eu datrys. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae cydlynwyr yn darparu gwasanaeth yn yr ardal a'r cydlynwyr yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer materion strydwedd.
- Mae Cydlynwyr Ardal yn mynychu cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned yn unol â'r cytundeb â Chynghorau unigol.
- Bydd Cydlynwyr Ardal yn cefnogi digwyddiadau lleol lle bo hynny'n bosibl e.e. gallant ddarparu offer ac alinio gwasanaethau i gefnogi lle bo angen ac ati.
- Dylid cofnodi cwynion a cheisiadau am wasanaethau drwy Ganolfan Gyswllt Strydwedd ar y rhif uchod, bydd galwadau yn cael eu cofnodi a'u trosglwyddo i'r Cydlynwyr perthnasol gan ddarparu trywydd archwilio clir rhag ofn bod angen uwch-gyfeirio unrhyw beth.
- Dylid cysylltu â Barry Wilkinson os oes angen uwch-gyfeirio mater ymhellach.

Cwestiynau ac Atebion:

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar y Rhaglen, fodd bynnag, esboniodd Gareth Evans o Gyngor Cymuned Higher Kinnerton fod ganddynt faterion heb eu

datrys er eu bod wedi dilyn y broses. Un enghraifft a nododd oedd mewn perthynas â pharcio yn yr ysgol – codwyd y mater fis yn ôl ac nid ydynt wedi derbyn ymateb/ adborth eto. Ymddiheurodd Barry Wilkinson ar ran y Cyngor ac fe gynigodd ymchwilio i'r mater ymhellach ac ymateb yn unol â hynny.

Camau Gweithredu:

Gareth Evans, Cyngor Cymuned Higher Kinnerton i ddarparu gwybodaeth i Barry Wilkinson am y materion heb eu datrys mewn perthynas â pharcio yn yr ysgol er mwyn iddo allu ymchwilio iddynt.

[Cyngor Cymuned Higher Kinnerton i weithredu]

1F. Cymorth Trydydd Sector yn defnyddio DEWIS Cymru

Yn absenoldeb Kate Howard, cyflwynodd Ann Woods, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, yr eitem hon. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Kate Howard yw'r Cydlynydd SPOA (Un Pwynt Mynediad) yn y Tîm Cyswllt Cyntaf ac mae'n darparu cymorth ar gyfer Dewis.
- Mae Dewis Cymru yn feddalwedd ar y we ac mae hefyd yn borth cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth lles yng Nghymru - www.dewis.cymru
- Gellir cael mynediad at Dewis yn rhad ac am ddim ac mae'n rhoi dewis a rheolaeth i bobl mewn perthynas â'u lles eu hunain.
- Mae'r wybodaeth yn hygyrch 24/7 ac mae'r adnoddau yn cael eu gwirio bob 6 mis er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfredol.
- Nid yw'r wybodaeth ar wefan Dewis Cymru yn benodol ar gyfer un Sir, fe allwch ganfod cymorth ar draws y ffin os oes angen.
- O dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae Dewis yn helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau – i wneud gwybodaeth yn hygyrch.
- Gofynnwyd i Gynghorau Tref a Chymuned a oeddent yn ymwybodol o unrhyw grwpiau a oedd yn gweithredu yn yr ardal ond heb eu cynnwys ar wefan Dewis a gofynnwyd iddynt ychwanegu'r wybodaeth berthnasol.
- Mae cyhoeddi gwybodaeth ar wefan Dewis yn weddol hawdd a gall unrhyw un wneud hyn, fodd bynnag, gall Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint gefnogi pobl wrth wneud hyn os oes angen.
- Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad at Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint ar 01352 744000.

Cwestiynau ac Atebion:

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar y Rhaglen.

Camau Gweithredu:

FFORWM SIROL
NODIADAU'R CYFARFOD

Dosbarthu copi o sleidiau'r cyflwyniad i Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn y cyfarfod.

[Sam Perry i weithredu]

Sganio copi o Daflen Dewis a dosbarthu'r copïau i Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn y cyfarfod.

[Sam Perry i weithredu]

Hyrwyddo Dewis Cymru o fewn eich cymunedau a gwefannau.

[Yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i weithredu]

1G. Strategaeth Toiledau Lleol

Cyflwynodd Barry Wilkinson yr wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Toiledau Lleol. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Cyflwynwyd y Strategaeth Toiledau Lleol o ganlyniad i Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 - Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cynnwys Darparu Toiledau ac yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd i Awdurdodau Lleol ddarparu strategaethau toiledau lleol.
- Nid yw'r ddyletswydd i baratoi strategaeth toiledau lleol yn gorfodi cynghorau i ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol, ac nid yw'n ofynnol iddynt ddarparu cyfleusterau pwrpasol newydd.
- Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gymryd golwg strategol o ran sut y gellir darparu cyfleusterau a chael mynediad atynt, gan ystyried pethau fel lleoliad, hygyrchedd, cyfleusterau, amlder defnydd ac ansawdd safleoedd presennol, yn ogystal â phennu a oes angen mwy neu lai o safleoedd ar gyfer eu poblogaeth leol.
- Mae gan Awdurdodau Lleol hyd at ddiwedd Mai 2019 i sicrhau bod Strategaeth mewn lle.
- Mae Cyngor Sir y Fflint wedi bod â Strategaeth ers 2012 ac fe aliniwyd y Strategaeth hon â'r canllawiau newydd.
- Ar hyn o bryd mae drafft Strategaeth Toiledau Lleol Sir y Fflint yn destun ymgynghoriad (12 wythnos). Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw dydd Gwener, 26 Ebrill 2019.
- Gofynnwyd i Gynghorau Tref a Chymuned adolygu'r Strategaeth a darparu eu sylwadau drwy'r tudalennau gwe canlynol:
    - Tudalen Saesneg - www.flintshire.gov.uk/DraftToiletStrategy
    - Tudalen Gymraeg - www.siryfflint.gov.uk/DrafftStrategaethToiledau

Cwestiynau ac Atebion:

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar y Rhaglen.

Camau Gweithredu:

FFORWM SIROL
NODIADAU'R CYFARFOD

Anfon y dolenni cyswllt (Cymraeg a Saesneg) i dudalen yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor at y Cynghorau Tref a Chymuned.

[Sam Perry i weithredu]

Adolygu'r strategaeth ddrafft a darparu adborth/ sylwadau.

[Yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i weithredu]

FFORWM SIROL
NODIADAU'R CYFARFOD

RHAN DAU

EITEMAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

2A. Diogelwch ar y Ffyrdd – Cyngor Tref Saltney

Tynnwyd yr eitem hon oddi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod hwn yn unol â chais Cyngor Tref Saltney. Mae'r eitem yn cael ei datblygu y tu allan i'r Fforwm Sirol.

Ni chyflwynwyd unrhyw eitem arall gan Gynghorau Tref a Chymuned.

RHAN TRI

CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

Mae cyfarfodydd Fforwm Sirol ar gyfer y dyfodol wedi cael eu trefnu fel a ganlyn:

Dyddiad: Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2019
Amser: 6.30pm - 8.30pm

Dyddiad: Dydd Llun, 7 Hydref 2019
Amser: 6.30pm - 8.30pm

Cynllun Gwaith Arfaethedig – Mehefin 2019:

- **Cyflwyniad y Sefydliad Gwaddol Cymunedol –** Richard Williams
- **Rheolaeth Ariannol a Llywodraethu: Cynghorau Tref a Chymuned 2017-18 -** Swyddfa Archwilio Cymru
- **Trefniadau Archwilio Mewnol: Cynghorau Tref a Chymuned -** Swyddfa Archwilio Cymru
- **Cyflwyniad: Proses Cyn Ymgynghori Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Datblygiad Mawr –** Mandy Lewis, Cyngor Sir y Fflint

Camau Gweithredu:

Cyflwyno unrhyw ddiddordeb i 'Gynnal/Cadeirio' cyfarfod Fforwm Sirol yn y dyfodol i Sam Perry / Joanne Pierce cyn y cyfarfod.

[Yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i weithredu]

Cyflwyno unrhyw eitem i'w chynnwys ar y rhaglen i Sam Perry / Joanne Pierce cyn bob cyfarfod.

[Yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i weithredu]

FFORWM SIROL
NODIADAU'R CYFARFOD